

Rhif: WG21891



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Dogfen Ymgynghori y Cais am Dystiolaeth mewn  
perthynas â Gwastraff Amaethyddol



Dyddiad cyhoeddi: **12 Mehefin 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Medi 2014**

## Trosolwg

Mae'r datganiad a'r cais am dystiolaeth hwn yn amlinellu nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon ar dir amaethyddol. Mae'n nodi'r dystiolaeth gyfredol a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori hon a'u hanfon atom yn y cyfeiriad canlynol: Llywodraeth Cymru, Cangen y Strategaeth Wastraff, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu e-bostiwch eich ymateb i [WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk](mailto:WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk)

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Datganiad Sefyllfa Drafft Llywodraeth Cymru ar Wastraff Amaethyddol.

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Cynorthwydd Rheoli Rhaglen  
Cangen y Strategaeth Wastraff  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk](mailto:WasteStrategy@wales.gsi.gov.uk)  
rhif ffôn: 029 2082 1787

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Cynnwys**

Rhagair .....	2
Cyflwyniad .....	3
Cefndir .....	3
Adran Un: Cynlluniau sector .....	4
Adran Dau: Diben y datganiad sefyllfa drafft a'r cais am Dystiolaeth.....	5
Adran Tri – Cwestiynau'r cais am dystiolaeth .....	7
Adran Pedwar – Sylwadau cloi .....	10

## Rhagair

Mae 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru, yn gosod polisiâu a thargedau lefel uchel ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r cynlluniau sector yn ddogfennau allweddol sy'n nodi amcanion a champau penodol i bob sector fel y gallant gyfrannu'r hyn sydd ei angen ar gyfer cyflawni nodau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

Mae'r polisiâu a'r targedau yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn adlewyrchu pwysigrwydd yr angen i newid ein ffyrdd gwastraffus ar frys a chyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy a llesiant, sy'n ganolog i bopeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Dengys ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn eglur fod ein defnydd o adnoddau'n anghynaliadwy ar hyn o bryd. Mae gennym ymrwymiad, i ni'n hunain, i'n plant ac i'n cyd-ddinasyddion i sicrhau nad ydym yn defnyddio adnoddau mwy nag Un Blaned – ein cyfran "deg". Mae'r blaned rydym yn byw arni, yn cynnwys yr adnoddau naturiol a'r economi sy'n creu cyfoeth ar ein cyfer, yn dibynnu ar ein gallu i ddefnyddio adnoddau'n ddoethach, gyda'r fantais ychwanegol y deugn i allu defnyddio adnoddau'n llawer mwy effeithlon yn y broses. Mae'n fater pwysig sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol – i ddinasyddion Cymru a dinasyddion economïau'r Byd sy'n datblygu. Rhaid i ni newid: o'r blaen, gallem fforddio bod yn wastraffus. Bellach, ni allwn fforddio parhau i fyw felly.

Mae'r cais am dystiolaeth yn gosod y sefyllfa bresennol o ran y gwastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â chyfleoedd i ddefnyddio tail fferm i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a phroblemau gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ar dir amaethyddol. Mae'n nodi'r dystiolaeth a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r cais am dystiolaeth yn gofyn a oes rhagor o dystiolaeth ar gael ac a oes angen i Lywodraeth Cymru roi camau pellach ar waith i ddatblygu datganiad sefyllfa neu gynllun gweithredu penodol ar gyfer y sector. Mae'r cais am dystiolaeth yn targedu busnesau amaethyddol, cwmnïau rheoli gwastraff, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, cyrff cyflawni, ac eraill sydd â buddiant mewn gwastraff amaethyddol a defnydd effeithlon o adnoddau.



**Alun Davies AC**  
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad sefyllfa drafft a'r cais am dystiolaeth yn gosod y sefyllfa bresennol o ran y gwastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â chyfleoedd i ddefnyddio tail fferm i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a phroblemau gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ar dir amaethyddol. Mae'n nodi'r dystiolaeth gyfredol a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a oes rhagor o dystiolaeth ar gael ac a oes angen i Lywodraeth Cymru roi camau pellach ar waith a datblygu cynllun gweithredu penodol ar gyfer y sector o dan 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', dogfen y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru. Mae'r cais am dystiolaeth yn targedu busnesau amaethyddol, cwmnïau rheoli gwastraff, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, cyrff cyflawni, ac eraill sydd â buddiant mewn gwastraff amaethyddol a defnydd effeithlon o adnoddau.

## Cefndir

Y man cychwyn ar gyfer rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau'n effeithlon yn y sector hwn yw Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE 2008/98/EC. Mae hon yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar aelod-wladwriaethau i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl drwy atal neu leihau effeithiau niweidiol cynhyrchu a rheoli gwastraff a thrwy leihau effeithiau cyffredinol y defnydd o adnoddau a'u defnyddio'n fwy effeithlon (Erthygl 1). Mae'r Gyfarwyddeb (Erthygl 28) yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau gynhyrchu cynlluniau rheoli gwastraff. Trosglwyddwyd y gofyniad i Lywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff cenedlaethol drwy reoliad 7 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Rhagnodir cynnwys cynllun rheoli gwastraff yn rheoliad 8 ac Atodlen 1 y Rheoliadau.

Cyhoeddwyd Strategaeth Wastraff Genedlaethol gyntaf Cymru, 'Yn Gall Gyda Gwastraff' yn 2002. Roedd yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r strategaeth ar ôl 5 mlynedd. Yn dilyn yr adolygiad, cyhoeddwyd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', dogfen y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru ar 21 Mehefin 2010.

Mae'r canlyniadau, y polisiau a'r targedau a amlinellir yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn helpu i gyflawni 'Cymru'n Un: Un Blaned' ac yn datblygu'r rhai a gyflwynwyd yn 'Yn Gall gyda Gwastraff' ymhellach. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddorion a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE gyda'i phwyslais ar atal gwastraff a gwneud yr UE yn gymdeithas sy'n gwneud defnydd da o ailgylchu. Ni fu unrhyw newid cyfeiriad, ond mae'r uchelgeisiau wedi'u hymestyn ymhellach er mwyn cyflawni canlyniadau datblygu cynaliadwy.

Caiff 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ei gyflwyno drwy gyfres o Gynlluniau Sector a fydd yn ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer pob sector allweddol, lle ystyrir bod angen camau gweithredu newydd. Mae'r rhain yn rhan o gynllun rheoli gwastraff Cymru sy'n ateb y gofynion a nodwyd yn Erthygl 28 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig.

Nododd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Cynlluniau Sector canlynol:

- Trefol.
- Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.
- Diwydiannol a Masnachol.
- Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd.
- Adeiladu a Dymchwel.
- Sector Cyhoeddus.
- Amaethyddiaeth.

Yn ogystal â'r cynlluniau sector, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhaglen atal gwastraff (fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 29 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff).

## **Adran Un: Cynlluniau sector**

Cynlluniau gweithredu 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw'r cynlluniau sector. Maent yn disgrifio rôl y sector, Llywodraeth Cymru ac eraill yn cyflawni'r canlyniadau, y targedau a'r polisïau yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Cawsant eu datblygu gyda chynrychiolwyr y sectorau i wneud yn siŵr y gellir eu cyflawni ac y byddant yn ddogfennau byw, hyblyg sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynlluniau yn:

- Diffinio'r hyn y bydd y cynllun sector yn ei gynnwys a phwy sy'n rhan o'r sector hwnnw.
- Amlinellu perfformiad y sector ar hyn o bryd, yn cynnwys rhoi manylion am y mathau o wastraff, ei faint, ei darddiad, a'r modd o'i reoli.
- Disgrifio sut y cymhwysir yr egwyddorion, y canlyniadau, y polisïau a'r targedau a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ar gyfer y sector.
- Nodi'r bwlch rhwng y perfformiad presennol a'r hyn sy'n ofynnol i'r sector ei wneud er mwyn cyflawni'r polisïau a'r targedau a amlinellwyd yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.
- Nodi'r camau cyfredol sydd ar waith a chmau newydd sy'n angenrheidiol ar gyfer llenwi bylchau yn y perfformiad.

### **1.1 – Pam mae angen Datganiad Sefyllfa a Chais am Dystiolaeth?**

Cyfran gymharol isel o gyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan y sectorau masnachol a diwydiannol yng Nghymru yw gwastraff amaethyddol (ac eithrio tail a slyri<sup>1</sup>) (<1%); ond mae'n rhaid ei ystyried o dan y

---

<sup>1</sup> Nid gwastraff yw tail a slyri o'u defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtaith, gan gynnwys eu defnyddio ar fferm wahanol i'r un y tarddant ohoni. Fodd bynnag, dosberthir tail neu slyri sy'n cael ei fwydo i system dreulio anaerobig ar fferm fel gwastraff wedi'i reoli, a bydd gofyn cael esemptiad neu drwydded ar ei gyfer.

Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Nid oes data manwl ar gael ar hyn o bryd am y math o wastraff a gynhyrchir ar ffermydd na'i faint, nac am wastraff sy'n cael ei adfer<sup>2</sup> ar dir amaethyddol, ac mae hyn yn rhwystr rhag nodi targedau priodol er mwyn i'r sector allu cydymffurfio ag ymrwymiadau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a datblygu camau gweithredu ar gyfer y sector.

Ers 2006, mae gwastraff amaethyddol wedi gorfod cydymffurfio â'r un mesurau rheoli ag a fu'n gymwys ar gyfer sectorau eraill ers blynyddoedd lawer (Trwyddedu Amgylcheddol / Cofrestru Esemptiadau ac ati), a gwnaed llosgi heb ei reoli a dipio gwastraff ar ffermydd yn anghyfreithlon. Bellach, daeth yn bryd adolygu effaith y newid hwn a'r ddeddfwriaeth ddilynol a gweld a yw'r mesurau rheoli hyn wedi sicrhau'r canlyniad a ddymunir, sef lleihau effaith gwastraff amaethyddol ar yr amgylchedd/iechyd pobl, lleihau effaith gyffredinol y defnydd o adnoddau a'u defnyddio'n fwy effeithlon.

Mae'r sector amaethyddol yn gallu adfer gwastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill drwy wneud defnydd manteisiol ohonynt at ddibenion amaethyddol – gan gynnwys defnyddio biowastraff fel gwrtaith a gwastraff adeiladu a dymchwel anadweithiol i wella tir a helpu i reoli'r tir (e.e. adeiladu traciau fferm). Mae'n cynnig marchnad bwysig felly ar gyfer ailgylchu neu adfer y ffrydiau gwastraff hyn. Mae'n rhoi cyfle i sefydlu economi gylchol ar gyfer deunydd organig. Fodd bynnag, yn ogystal â bod yn gyfle ariannol, mae hefyd yn creu risgiau a heriau o ran sicrhau na wneir unrhyw niwed i'r amgylchedd neu iechyd pobl pan gaiff y gwastraff hwn ei reoli ar dir amaethyddol. Mae'n bwnc sydd angen ei ystyried er mwyn sicrhau dealltwriaeth o rôl bwysig y sector, ein bod yn elwa i'r eithaf ar y manteision a'n bod yn ymdrin yn ddigonol ag unrhyw broblemau.

Dynoda'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yn hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r meintiau cymharol fach sydd dan sylw, nad yw gwastraff amaethyddol yn wastraff trafferthus ar lefel strategol yng Nghymru, er bod elfennau fel asbestos mewn adeiladau fferm, gwastraff dymchwel, cemegau fferm peryglus, cyffuriau anifeiliaid, cemegau dipio defaid ac ati yn gallu achosi problemau'n lleol os na chânt eu rheoli yn y ffordd gywir. Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn helpu i nodi'r data a'r wybodaeth sydd ei hangen i lywio ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r angen i gynhyrchu cynllun sector llawn yn benodol ar gyfer y sector amaethyddol, neu a fyddai datganiad sefyllfa yn nodi gweithgaredd cyfredol yn ddigon i ateb gofynion Erthygl 28 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

## **Adran Dau: Diben y datganiad sefyllfa drafft a'r cais am Dystiolaeth**

Trwy'r datganiad sefyllfa drafft, rydym yn gosod ein dealltwriaeth o'r data sydd ar gael am wastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector hwn. Mae'r cais am

---

<sup>2</sup> Mae gwastraff 'wedi'i adfer' yn cynnwys gwasgaru biowastraff ar y tir, a'r defnydd o wastraff anadweithiol wrth adeiladu.

dystiolaeth yn gwahodd safbwyntiau am wastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector amaethyddol a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Ein nod yw casglu tystiolaeth a safbwyntiau'r diwydiant er mwyn ehangu ein sylfaen wybodaeth yn ogystal â nodi materion sy'n codi, rhwystrau a phroblemau ymarferol sy'n wynebu'r sector. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn rhoi gwybodaeth i ni fel y gallwn benderfynu a fydd angen datblygu cynllun sector llawn yn y dyfodol, neu a fydd datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddarau yn ddigon i ategu cynlluniau'r sectorau eraill a chydymffurfio ag ymrwymïadau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

Trwy ofyn cyfres o gwestiynau, y bwriad yw casglu tystiolaeth ychwanegol i lenwi bylchau yn ein sylfaen wybodaeth ac i archwilio rhai materion ymarferol sy'n ymwneud â'r math hwn o wastraff.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd cyfraniadau gan bawb sydd â buddiant yn y sector amaethyddol (yn cynnwys busnesau a ffermwyr) a phawb sy'n defnyddio'r sector amaethyddol i reoli gwastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill.

Defnyddir yr ymatebion i nodi i ba raddau y mae angen camau gweithredu pellach.

## **2.1 – Beth a olygwn wrth “y sector amaethyddol”?**

Mae Deddf Amaethyddiaeth 1947 yn diffinio “amaethyddiaeth” fel maes sy'n cynnwys: "horticulture, fruit growing, seed growing, dairy farming and livestock breeding and keeping, the use of land as grazing land, meadow land, osier land, market gardens and nursery grounds, and the use of land for woodlands where that use is ancillary to the farming of the land for other agricultural purposes, and 'agriculture' shall be constructed accordingly."

## **2.2 – Pa wastraff a gynhyrchir ac a reolir gan y sector amaethyddol a pham mae'n bwysig?**

Mae ffrydiau gwastraff a gynhyrchir yn arferol ar safleoedd amaethyddol yn cynnwys y canlynol:

- Cynwysyddion plaladdwyr gwag;
- Hen ddeunydd lapio silwair a phlastig lapio cnydau;
- Hen feddyginiaethau a moddion llyngyr y mae eu hoes wedi darfod;
- Hen deiars;
- Metel sgrap;
- Peiriannau a cherbydau ar ddiwedd eu hoes;
- Llaeth dros ben a golchion tanciau llaeth;
- Cnydau diangen wedi'u palu'n ôl i mewn;



- Tail ac elifion silwair<sup>3</sup>.

Rydym hefyd yn ystyried pob gwastraff a gynhyrchir yn allanol sy'n cael ei reoli neu sydd i'w weld ar dir amaethyddol, yn cynnwys y canlynol:

- Slwtsh carthion;
- Slwtsh cynhyrchu papur;
- Gwastraff carthu;
- Gwastraff lladd-dy (gwaed / cynnwys y perfeddion);
- Tar / deunydd plaenio ffyrdd;
- Rwbwl adeiladu (e.e. i'w ddefnyddio fel is-sylfeini, traciau, buarthau, gwaith gwella amaethyddol ac ati);
- Pridd;
- Gweddillion treuliad anaerobig;
- Teiars – ar gyfer claddfeydd silwair;
- Compost;
- Gwastraff bwyd fel porthiant anifeiliaid;
- Deunydd gorwedd i anifeiliaid (e.e. blawd llif);
- Polion ffôn (wedi'u hailddefnyddio ar gyfer pyst gatiâu / adeiladau);
- Tipio anghyfreithlon;
- Llundw o losgyddion sglodion coed, carcasau moch a dofednod.
- Pren heb ei drin.

## 2.3 – Pwy sy'n cael budd?

Bydd y datganiad sefyllfa drafft a'r cais am dystiolaeth o fudd i'r canlynol:

- Ffermwyr;
- Garddwyr;
- Undebau ffermio;
- Cyrff masnach;
- Cyflenwyr amaethyddol;
- Gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd a diod;
- Cwmnïau gwastraff;
- Cyrff anllywodraethol ar gyfer cadwraeth a'r amgylchedd;
- Rheoleiddwyr (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol);
- Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth;
- Ymgynghorwyr.

## Adran Tri – Cwestiynau'r cais am dystiolaeth

Isod, ceir rhestr o gwestiynau penodol sy'n gofyn am dystiolaeth a safbwyntiau gan y diwydiant er mwyn ehangu ein sylfaen wybodaeth yn ogystal â nodi materion sy'n codi, rhwystrau a phroblemau ymarferol sy'n wynebu'r diwydiant.

---

<sup>3</sup> Nid gwastraff yw tail, slyri ac elifion silwair o'u defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtaith. Fodd bynnag, caiff tail neu slyri sy'n cael ei fwydo i system dreulio anaerobig ar y fferm ei ddsbarthu fel gwastraff wedi'i reoli, a bydd gofyn cael esemptiad neu drwydded ar ei gyfer.

Os teimlwch fod ffynonellau tystiolaeth eraill y dylid tynnu sylw atynt mewn perthynas â gwastraff amaethyddol, mae croeso i chi gynnwys y rhain yn eich ymateb.

### **Data**

1. A oes gennych dystiolaeth o fathau gwirioneddol o wastraff amaethyddol a faint sy'n cael ei gynhyrchu, a mathau o wastraff a faint sy'n cael ei adfer ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru bob blwyddyn?
2. A oes gennych dystiolaeth am ddulliau/cyfleusterau (yn cynnwys mathau o wastraff a faint) a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y sector amaethyddol i reoli gwastraff a pha un a oes digon o gyfleusterau a lle ar gael?

### **Rheoleiddio**

3. A oes gennych dystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y mae trefniadau rheoli gwastraff amaethyddol wedi gwella ers cyflwyno'r Rheoliad yn 2006? A ystyriwch chi fod digon o wybodaeth o fewn y diwydiant amaethyddol ynghylch rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac ynglŷn â sut i gydymffurfio â'r Rheoliadau?
4. A ydych chi'n credu bod y rheoliadau gwastraff cyfredol yn ddigon i reoli gwastraff y sector amaethyddol yn ddigonol er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl? Sut y gellid eu gwella a beth yw'r prif faterion sy'n codi mewn perthynas â gwastraff amaethyddol (cydymffurfio, gorfodi, monitro)?
5. A oes gennych dystiolaeth o effeithiolrwydd neu aneffeithiolrwydd y ddeddfwriaeth wastraff sy'n rheoli'r defnydd o wastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill ar dir ffermydd?

### **Gwybodaeth**

6. A oes gennych dystiolaeth o'r materion ymarferol a'r prif rwystrau i'r diwydiant amaethyddol o ran rheoli, lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff amaethyddol?

### **Cyffredinol**

7. Beth ydych chi'n credu yw'r prif faterion sy'n codi o ran rheoli gwastraff amaethyddol yng Nghymru?
8. A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â sut y gall y sector amaethyddol gynorthwyo sectorau eraill i leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff mewn modd cynaliadwy?
9. A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â sut y gall gwasanaethau amaethyddol gynorthwyo'r diwydiant i reoli gwastraff amaethyddol, yn cynnwys lleihau deunydd pacio/nwyddau sy'n cael eu dychwelyd/gostyngiadau ac ati?

10. A ddylai fod mwy o ffocws ar reoli gwastraff amaethyddol mewn cynlluniau cyfredol a/neu yn y dyfodol (e.e. trawsgydymffurfio, Glastir, Cynllun Datblygu Gwledig). Os dylai, beth ddylai'r ffocws hwnnw fod?
11. A ydych chi'n credu bod angen cynllun sector penodol ar y diwydiant amaethyddol? Rhowch dystiolaeth a rhesymau.
12. Rydym yn croesawu eich barn a'ch tystiolaeth ynglŷn â sut y gall y sector amaethyddol gefnogi'r broses o adfer gwastraff bioddiraddadwy drwy dreulio anaerobig yng Nghymru.

### **Arall**

13. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu sylw at unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi ystyriaeth benodol iddynt, cofiwch eu cynnwys yn eich ymateb. Hefyd, mae croeso i chi gynnwys unrhyw safbwyntiau neu sylwadau cyffredinol eraill yr hoffech eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru.

## Adran Pedwar – Sylwadau cloi

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth er mwyn penderfynu a oes angen gwaith pellach ac a oes galw am ddatblygu cynllun gweithredu penodol ar gyfer y sector neu a fydd Datganiad Sefyllfa terfynol yn ddigon.

### **Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: